PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol: **5 Rhagfyr 2024**

Is-gadeirydd:	**Cynghorydd D.Thomas**
Cynghorwyr:	N.Goldup-John, J.Henton, D.Keogh, C.Lewis, R.Mizen, S.Rahaman, P.A.Rees, S.H.Reynolds, P.Rogers a/ac B.Woolford
Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:	A. Amor a/ac M.Caddick
Swyddogion sy'n Bresennol	H.Lervy, C.Millis, R.Crowhurst, C.Saunders, C.Morris, L.Clement-Jones, L.McAndrew, M.Daley, K.Windsor-Brown, A.Spooner-Cleverly, S.Griffiths, D.Evans, R.Monks, L.Williams a/ac P.Chivers
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Y Cyng. Nia Jenkins, Eitem (5A) – Personol, Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Alltwen

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

4. YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet

(a) Cwricwlwm i Gymru

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Addysg drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda. Mae Castell-nedd Port Talbot yn gwneud cynnydd cyson, ond bydd newid y cwricwlwm yn golygu newidiadau diwylliannol tymor hir. Cyflwynwyd y cwricwlwm newydd i flynyddoedd ysgol 7, 8 a 9 yn 2024. Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn fwy heriol mewn ysgolion uwchradd oherwydd pwysau cymwysterau.

Holodd yr Aelodau am lefel y cymorth a ddarperir i ysgolion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

Cadarnhaodd swyddogion fod Castell-nedd Port Talbot wedi datblygu'r cwricwlwm ymhellach o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Rhoddwyd cymorth pwrpasol i ysgolion yn unol â lefel yr angen mewn ysgolion unigol ac roedd cynigion dysgu proffesiynol ar gael i bob ysgol.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

(b) Tîm Gwella Ysgolion - Strategaeth Arweinyddiaeth

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Addysg drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda. Nodwyd, er bod yr awdurdod yn cefnogi datblygu arweinyddiaeth, mae newidiadau i'r uwch-broffil arweinyddiaeth wedi arwain at gynnydd yn nifer y penaethiaid a dirprwy benaethiaid llai profiadol. Rhoddwyd strategaeth arweinyddiaeth newydd ar waith ym mis Medi 2017.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

(c) **Tîm Gwella Ysgolion - Dysgu ac Addysgu**

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Addysg drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda. Cydnabuwyd yr heriau a wynebir gan arweinwyr ysgolion o ran gwella a datblygu addysgu yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r broses o ddysgu, yn hytrach na chynnyrch terfynol dysgu, wrth wraidd y cwricwlwm newydd, ac mae hyn yn darparu heriau sylweddol.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod ymgysylltiad cadarnhaol wedi bod ac roedd ysgolion yn dechrau gweithio'n agosach gyda'i gilydd.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

(d) **Adolygiad o Feysydd Parcio Parciau Gwledig**

Rhoddodd y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant drosolwg o'r adroddiad i'r aelodau fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Holodd yr aelodau am brisiau gwahanol y tocynnau blynyddol presennol ym Mharc Gwledig Margam a Pharc Gwledig y Gnoll. Holodd yr aelodau a oedd graddfa symudol ar gyfer ffioedd meysydd parcio wedi cael eu hystyried. Gall hyn arwain at fwy o ddefnydd gan breswylwyr am gyfnodau byrrach.

Holodd yr aelodau a roddwyd ystyriaeth i orfodi adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR).

Cadarnhaodd swyddogion fod opsiynau gorfodi gwahanol wedi cael eu hystyried ond roedd costau uchel yn gysylltiedig â rhai dulliau. Ni ystyriwyd bod parcio rhwystr yn addas oherwydd methiannau mecanyddol posib a brofwyd gan gyfleusterau mewn awdurdodau cyfagos a'r agosrwydd at yr A48 ym Margam, sy'n gofyn am lif cyson o draffig.

Holodd yr aelodau a fyddai cyfleuster ar gael i dalu yn y parciau gwledig yn hytrach na thalu ar-lein gan nad oedd yr opsiwn hwn yn addas i bob ymwelydd.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai cyfleuster ar gael i dalu yn y ciosg ym Mharc Gwledig Margam o hyd a byddai ymwelwyr hefyd yn

gallu talu gan ddefnyddio'u ffôn yn ogystal â gan ddefnyddio'r peiriannau Talu ac Arddangos.

Mynegodd yr aelodau bryder nad oedd bysus cyhoeddus yn teithio i'r Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Gwledig y Gnoll ac roedd hyn yn rhwystr i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno teithio i'r parc ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Dywedodd y Pennaeth Hamdden, Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant wrth aelodau fod mynediad i barciau gwledig am ddim. Mae'r ffi yn gysylltiedig â meysydd parcio yn unig. Mae'r safle bysus ym Mharc y Gnoll wedi cael ei adolygu ond cafwyd problemau o ran darparu safle bysus ger y ganolfan ymwelwyr. Caiff rhagor o fanylion eu dosbarthu i'r aelodau.

Cytunodd yr Aelodau fod y Tocyn Blynyddol ar gyfer yr holl barciau'n werth am arian ond roeddent yn cwestiynu a fyddai'r gost gychwynnol yn rhy ddrud i rai pobl.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cynnig yn cynnwys cyfleuster debyd uniongyrchol sy'n costio £7.50 y mis, a oedd yn fwy fforddiadwy ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Nododd yr Aelodau fod nifer y deiliaid tocynnau tymor ym Mharc y Gnoll yn isel a holwyd pa waith farchnata oedd yn cael ei ystyried i hyrwyddo'r parciau gwledig. Holodd yr aelodau a oedd cylchlythyr wedi'i ystyried i hyrwyddo'r parciau gwledig ac a oedd modd marchnata tocynnau tymor fel anrhegion.

Roedd swyddogion yn cydnabod y gellid gwella'r gwaith marchnata a dywedwyd wrth aelodau fod Swyddog Marchnata bellach ar waith i fwrw ymlaen â hyn. Ar hyn o bryd, oherwydd y gwaith i adnewyddu cyfleusterau ym Mharc Gwledig y Gnoll, nid oedd tocynnau tymor yn cael eu hyrwyddo'n weithredol.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau'r argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

(e) **Ehangu Dechrau'n Deg - Cam 3**

Rhoddodd Bennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Phartneriaethau drosolwg o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda.

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar longyfarchiadau i staff ynghylch y gwaith a wnaed yn y camau Dechrau'n Deg blaenorol.

Holodd yr Aelodau a oedd cyllid ar gael i roi cam 3 ar waith yn gynt na'r amserlen 6 blynedd a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd pryderon ynghylch plant y mae angen cymorth arnynt ar unwaith.

Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau ei fod yn bwysig sicrhau bod yr isadeiledd gofal plant priodol ar waith cyn symud ymlaen. Roedd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn bwysig wrth nodi angen.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod yr anawsterau a brofir ar hyn o bryd yn y sector gofal plant o ran hyfforddiant a chostau cynyddol.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo i wella safon y gweithlu gofal plant ar bob lefel ac i sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn cael ei gydnabod fel gweithwyr proffesiynol sydd â chyflog priodol i gyfateb i'w cymwysterau. Caiff y materion a brofir ar hyn o bryd eu codi gyda Llywodraeth Cymru a'r gobaith yw y bydd cefnogaeth barhaus ar gyfer y sector.

Soniodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar am gyflwyniad diweddar y Gwobrau Gofal Plant a dywedodd fod 47 o'r 49 o'r cwmnïau preifat yn bennaf a oedd yn bresennol yn cynnig Dechrau'n Deg. Nid yw'r gwaith a'r hyfforddiant ychwanegol a wneir i gynnig Dechrau'n Deg yn cael ei gydnabod. Byddant yn croesawu unrhyw arian ychwanegol a ddarperir i'r maes hwn.

Yn dilyn gwaith craffu, cefnogodd yr aelodau'r argymhelliad a amlinellwyd yn adroddiad drafft y Cabinet.

(f) **Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2023/2024**

Cafodd yr eitem hon ei hepgor yn anfwriadol o'r cyfarfod. Dosbarthwyd yr wybodaeth i aelodau'r pwyllgor drwy e-bost.

5. YSTYRIED EITEMAU O FLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU

Trafododd yr Aelodau eitemau o Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu.

(a) **Y Diweddaraf am y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid drosolwg o'r adroddiad i'r aelodau fel y'i cynhwysir yn y pecyn agenda.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion ynghylch y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion a gofynnwyd iddynt drefnu gweithdy i roi gwybod i aelodau'r pwyllgor am y cynlluniau parhaus.

Dywedodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid wrth yr aelodau fod yr holl gynlluniau presennol ar gamau gwahanol, fodd bynnag, gellid trefnu gweithdy i rannu gwybodaeth ag aelodau'r pwyllgor craffu. Bydd y Swyddog Craffu'n trefnu hyn gyda swyddogion y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleusterau Ysgol Gynradd Alltwen.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar fod gwaith atgyweirio wedi'i gynllunio, a byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod cyfnodau lle bydd yr ysgol ar gau.

Cadarnhawyd y byddai aelodau o'r Grŵp Partneriaeth Safonau Ysgolion yn cael eu gwahodd i ymweld â'r ysgol.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

(b) **Cyflogadwyedd a Sgiliau**

Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwysir yn y pecyn agenda. Dechreuodd y gwaith ar y strategaeth yn 2022, fodd bynnag, roedd nifer o newidiadau parhaus sylweddol sy'n digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi nodi nad oedd y strategaeth ddrafft yn darparu cynllun clir a chryno i gefnogi a darparu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd gwaith i ddiwygio'r cynllun drafft yn mynd rhagddo yn 2025.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

6. MONITRO PERFFORMIAD

Ystyriodd yr aelodau eitemau monitro perfformiad.

(a) Diweddariad Chwemisol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 a 2

Dywedodd swyddogion wrth aelodau fod dyletswydd i adrodd ar gynnydd y Cynllun Corfforaethol. Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2024 – 2027 gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn yr adroddiad chwemisol a gyflwynwyd i'r aelodau heddiw. Adroddir am gynnydd bob chwarter wrth symud ymlaen. Mae angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â chofnodi mesurau perfformiad sydd ar y trywydd cywir a'r rhai nad ydynt ar y trywydd cywir at ddibenion monitro.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 226 yr adroddiad a'r mesur cludiant rhwng y cartref a'r ysgol nad oedd ar y trywydd cywir. Mae aelodau eisoes wedi trafod hyn gyda swyddogion ac mae ymwybyddiaeth o rai o'r problemau. Holodd yr Aelodau a oedd diweddariad pellach ar gael.

Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Addysg y bydd adroddiad ar y mater hwn yn destun gwaith craffu ond nid oes rhagor o fanylion ar gael ar hyn o bryd.

Yn dilyn craffu, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

7. DETHOLIADAU O EITEMAU I GRAFFU ARNYNT YN Y DYFODOL

Hysbyswyd yr aelodau gan swyddogion o eitemau newydd a oedd wedi cael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Cabinet a newidiadau i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn am eitemau pellach i'w hystyried.

Gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiadau canlynol gael eu hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu:

- Strategaeth Hygyrchedd
- Ysgolion Bro
- Ymweliadau Cefnogi gan Swyddogion Cefnogi Addysg mewn Ysgolion
- Addysg Ddewisol yn y Cartref

Yn flaenorol, trefnwyd gwaith craffu ar gyfer yr adroddiad Cefnogaeth Ddiogelu mewn Ysgolion ac adroddiad Strategaeth y Llyfrgell ym mis Ionawr, a gyda chytundeb y Pwyllgor, symudwyd y rhain i'r cyfarfod ar 6 Mawrth.

Ychwanegwyd adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru at y Flaenraglen Waith o dan Fonitro Perfformiad.

Tynnwyd adroddiad Cynllun Busnes Parc Margam oddi ar y Flaenraglen Waith ond caiff ei ailosod ar y rhaglen yn y dyfodol. Gofynnodd yr aelodau am ymgysylltiad cynnar mewn perthynas â Chynllun Busnes Parc Margam.

Mynegodd yr aelodau bryder am y dull presennol ar gyfer dewis eitemau o Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer gwaith craffu.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai aelodau'n cael cyfle i fynegi eu barn yn ystod yr adolygiad craffu sydd ar ddod.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Cynghorydd D.Thomas

IS-GADEIRYDD